

Gofalu am rywun sy'n gwella ar ôl cael anesthetig cyffredinol neu dawelydd

Efallai na fydd cleifion yn gallu meddwl yn glir ac efallai y bydd eu crebwyll yn cael ei effeithio am hyd at 24 awr ar ôl cael anesthetig cyffredinol neu dawelydd.

Yn ystod y cyfnod hwn ni ddylent:

- warchod plant neu bobl eraill y maent yn gofalu amdanynt
- gyrru cerbyd neu reidio beic
- coginio neu ddefnyddio unrhyw beiriannau
- gwneud unrhyw benderfyniadau pwysig, hyd yn oed os ydyn nhw'n meddwl eu bod nhw'n teimlo'n iawn
- postio unrhyw beth ar gyfryngau cymdeithasol/fforymau cyhoeddus
- yfed alcohol.

Rydych wedi cael cais i fynd â pherthynas neu ffrind adref a gofalu amdano neu amdani yn dilyn triniaeth gyda thawelydd neu anesthetig cyffredinol. Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth gyffredinol i chi am beth ddylai ac na ddylai ei wneud wrth wella a beth ddylech chi ei ddisgwyl. Dylai hyn eich helpu i gynllunio ymlaen llaw.

Beth ddylwn i ei ddisgwyl?

Gall y cyffuriau tawelu neu'r anesthetig wneud rhai cleifion ychydig yn ddryslyd ac yn simsan ar ôl eu triniaeth. Mae'n bwysig nodi y gall effeithio ar eu crebwyll fel na fyddant efallai yn gallu meddwl yn glir. Gall hyn bara am hyd at 24 awr, sef tan y diwrnod wedyn. Dylech gadw llygad barcud arnynt yn ystod y cyfnod hwn. Gall fod yn ddefnyddiol ystyried sut y byddant yn ymdopi pan fyddant yn mynd adref o'r ysbyty. Er enghraifft, gallai symud y gwely i'r llawr gwaelod fod yn gymorth i rai.

Pryd gaf i gasglu fy ffrind neu berthynas?

Dim ond pan fydd wedi gwella a phan fyddwch chi yno i fod yn gwmni iddo neu iddi y bydd staff yn yr ysbyty yn caniatáu i'r claf fynd adref. Gan na ddylai cleifion yrru am 24 awr ar ôl cael anesthetig cyffredinol neu dawelydd, mae'n rhaid i chi fod yn oedolyn cyrifol dros 18 oed. Yn ddelfrydol dylech fynd â'ch ffrind neu berthynas adref mewn car neu dacsî - nid ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Ni fydd y staff yn gallu rhoi union amser ichi gan fod rhai cleifion yn cymryd mwy o amser nag eraill i wella ar ôl cael anesthetig, tawelydd neu lawdriniaeth. Fodd bynnag, byddwch yn cael syniad o'r amser neu rif ffôn i chi ei alw. Bydd y nyrs hefyd yn cymryd eich rhif ffôn er mwyn cysylltu â chi. Os na fydd y claf yn gallu cerdded, dylid darparu cadair olwyn fel y gall fynd yn ddiogel i'ch cerbyd.

A fydd rhywun yn egluro wrthyf beth fydd angen ei wneud?

Bydd y meddygon yn rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig sy'n benodol i'ch ffrind neu berthynas. Dylai'r rhain gynnwys:

- beth i'w ddisgwyl pan fydd yn mynd adref
- cyfarwyddiadau ynghylch bwyta, yfed a chymryd ei feddyginiaeth arferol ar ôl y driniaeth
- pethau a allai achosi pryder i gadw'ch llygaid ar agor amdanynt a rhif cyswllt yn yr ysbyty os bydd gennych chi neu'ch ffrind neu berthynas unrhyw gwestiynau neu os bydd yn teimlo'n sâl
- pethau y gall ac na all eu gwneud ar ôl y driniaeth
- gwybodaeth am unrhyw feddyginiaeth ychwanegol y gallai fod angen iddo fo neu iddi hi ei chymryd, er enghraifft cyffuriau lleddfu poen
- gwybodaeth am olchi a gofalu am glwyfau. Darllenwch y cyfarwyddiadau hyn gyda'ch ffrind neu berthynas a gwnewch yn siŵr eu bod yn cael eu dilyn.

Beth ddylai fy ffrind neu berthynas ei wneud gartref?

Bydd hyn yn dibynnu ar y math o driniaeth y mae wedi'i chael a'r cyfarwyddiadau gan yr ysbyty. Yn gyffredinol, dylai:

- gael digon o orffwys i'w helpu i wella
- peidio â cherdded heb gymorth os bydd o neu hi'n simsan ac, yn ddelfrydol, osgoi grisiau
- dilyn yn ofalus gyfarwyddiadau'r ysbyty ynghylch cymryd ei feddyginiaeth arferol ac unrhyw gyffuriau lleddfu poen ychwanegol
- dilyn y cyfarwyddiadau a roddir gan yr ysbyty ynghylch bwyta, yfed ac ymolchi.

Beth na ddylai o neu hi ei wneud?

Efallai na fydd yn gallu meddwl yn glir am hyd at 24 awr ar ôl cael anesthetig neu gyffuriau tawelu. Yn ystod y cyfnod hwn, ni ddylai:

- warchod plant neu bobl eraill y mae'n gofalu amdanynt
- gyrru cerbyd neu reidio beic
- coginio neu ddefnyddio unrhyw beiriannau
- yfed alcohol
- gwneud unrhyw benderfyniadau pwysig, hyd yn oed os bydd yn meddwl ei fod yn teimlo'n iawn
- postio unrhyw beth ar gyfryngau cymdeithasol/fforymau cyhoeddus.

Rydym ni'n ceisio sicrhau bod yr wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ac yn gyfoes, ond ni allem warantu hynny. Nid ydym yn disgwyl i'r wybodaeth gyffredinol hon ateb pob cwestiwn sydd gennych, na delio â phopeth sydd o bwys i chi. Dylech drafod eich penderfyniadau ac unrhyw amheuon sydd gennych chi gyda'ch fîm meddygol, gan ddefnyddio'r daflen hon fel canllaw. Ni ddylid ystyried y daflen hon, ar ei phen ei hun, yn gyngor. Ni ellir defnyddio'r daflen hon at unrhyw bwrpas masnachol nac unrhyw bwrpas busnes. I weld yr ymwadiad llawn, cliciwch yma (www.rcoa.ac.uk/patient-information/translations/welsh).

Mae pob cyfieithiad yn cael ei darparu gan gymuned cyfieithwyr Translators Without Borders. Mae ansawdd y cyfieithiadau yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau bod y cyfieithiadau mor gywir ag sy'n bosib, ond mae yna risg o anghywirdebau a chamddechongli peth gwybodaeth.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella'r daflen hon.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau, e-bostiwch: patientinformation@rcoa.ac.uk

Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)

Churchill House, 35 Red Lion Square, London WC1R 4SG
020 7092 1500

www.rcoa.ac.uk

Ail Argraffiad, Tachwedd 2021

Bydd y daflen hon yn cael ei hadolygu o fewn tair blynedd o ddyddiad ei chyhoeddi.

© 2021 Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)

Caniateir copio'r daflen hon at ddibenion cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion. Dyfynnwch y ffynhonnell wreiddiol hon. Os ydych am ddefnyddio rhan o'r daflen hon mewn cyhoeddiad arall, rhaid rhoi cydnabyddiaeth addas a thynnu'r logos, y brandio a'r delweddau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.